

# Taith drwy Lythrennedd a Rhifedd

Astudiaeth achos: sut y gwnaeth Ysgol Plascrug integreiddio'r FfLIRh gan ddefnyddio Adnodd Addysg ar gyfer CA2 Sustrans



**“Mae adnoddau Sustrans yn ffordd ardderchog i ddisgyblion ddysgu sgiliau llythrennedd a rhifedd mewn modd ystyrlon”**

*Carol Macy, Athrawes Blwyddyn 6, Ysgol Plascrug*



**Byddai 96% o'r ysgolion a holwyd yn argymhell yr adnodd i ysgolion eraill**

## Gwreiddio Llythrennedd a Rhifedd yn y Cwricwlwm

Rhoddodd Ysgol Gymunedol Plascrug yn Aberystwyth gyfle i ddysgwyr gymhwyso gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLIRh) mewn modd ystyrlon a oedd yn berthnasol i'w bywydau bob dydd.

Gan ddefnyddio Adnodd Addysg FfLIRh ar gyfer CA2 Sustrans cyflwynodd yr athrawon amrywiaeth o wersi a gweithgareddau wedi'u cysylltu i thema drawsgwricwlaidd teithio egnïol a chynaliadwy.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2013-14 defnyddiodd disgyblion Ysgol Plascrug yr adnodd i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd a rhifedd ac mae nifer fawr ohonynt wedi gallu defnyddio eu dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae nifer yn penderfynu teithio i'r ysgol mewn modd egnïol ac maent yn hyderus ynglŷn â siarad am sut y maent yn teithio i'r ysgol a pham fod teithio egnïol yn bwysig.

Gwnaethom ymweld â'r ysgol i siarad â'r athrawon, rhieni a disgyblion er mwyn cael gwybod sut y defnyddiwyd yr adnodd i ddatblygu canlyniadau llythrennedd a rhifedd.

## Beth yw Adnodd Sustrans?

Mae adnodd FfLIRh ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 Sustrans yn ymdrin â phob elfen o'r Fframwaith o leiaf unwaith yn ystod y 28 gweithgaredd.

Mae'r adnodd, sydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg, wedi ei anelu at flynyddoedd 5 a 6. Mae'r asesiad ar gyfer dysgu wedi ei integreiddio gyda heriau asesu sy'n adlewyrchu fformat profion traddodiadol, fel y gall ysgolion ddatblygu strategaethau asesu sydd wedi'u cysylltu i'r FfLIRh.

Ar gyfer dysgwyr hŷn mae Sustrans hefyd wedi cynhyrchu adnodd i ddatblygu canlyniadau'r FfLIRh yng Nghyfnod Allweddol 3 gan ddefnyddio dull thematig – trowch i dudalen 4 am ragor o wybodaeth.



## Datblygu Rhifedd gan ddefnyddio Data Go iawn



Defnyddiodd Carol Macy, athrawes yn Ysgol Plascrug, yr adnodd i roi cyd-destun bywyd go iawn i ddisgyblion Blwyddyn 6 er mwyn integreiddio rhifedd. Fel y dywed Carol, "ym Mhlascrug rydym wedi darganfod y gall integreiddio canlyniadau rhifedd fod yn heriol, yn arbennig ym maes trin data, ond defnyddiwyd y syniadau gwersi yma i greu cysylltiadau rhifedd gyda phwnc teithio egnïol." Mae gweithgareddau yn yr adnodd yn datblygu gallu disgyblion i ddewis, trefnu a dadansoddi data rhifol. Er enghraifft, cynhaliodd y disgyblion arolygon yn ymwneud â theithio i'r ysgol a defnyddiwyd y rhain i greu graffiau amlder a phenderfynu ar gyfartaleddau cymedr, canolrif a modd. Ychwanega Carol y "gwnaeth ein Cydlynnydd Eco werthfawrogi'n fawr y gwaith a wnaed ac fe'i defnyddiwyd fel tystiolaeth enghreifftiol ar gyfer ein dyfarniad Ysgol-eco."

## Rhai ymatebion i'r gweithgareddau gan y gymuned ym Mhlascrug

"Mae'n rhaid i chi wneud rhywfaint o waith ond mae'r rhan fwyaf o'r gwaith yn hwyl." Disgybl

"...maent yn wersi unigol, awr o hyd, byr, apelgar ac yn mynd yn syth i'r pwynt, maent yn weledol, yn hwyl ac ychydig yn wahanol." Athro

"Mae hi bob amser yn well gwneud gwaith y gallant uniaethu ag ef yn ymarferol." Rhiant

"Bob tro arall yr ydym wedi gwneud gwaith fel hwn mae'n ffug, ond y tro yma mae'n rhywbeth go iawn." Disgybl

"Mae dod o hyd i bethau sy'n dysgu amcanion y FfLIRh yn benodol yn anodd...ond mae'r adnodd hwn yn darparu ar gyfer y FfLIRh ac mae'n taro'r targedau y mae angen i ni eu cyrraedd." Athro

"Mae mwy o blant yn sgwtera a beicio i'r ysgol ac maent yn fwy ymwybodol pam ei fod yn rhywbeth cadarnhaol." Athro

## Integreiddio Llythrennedd gydag Ysgrifennu Strwythuredig

Defnyddiwyd yr adnodd hefyd i ddatblygu cyfleoedd newydd i ddisgyblion greu gwaith ysgrifennu estynedig. Gan ddefnyddio mapiau o ardal yr ysgol a rhestr wirio, aeth disgyblion Blynnyddoedd 5 a 6 allan i ddadansoddi pa mor addas oedd eu hamgylchedd lleol ar gyfer cerdded, beicio a sgwtera. Crynhodd y disgyblion eu casgliadau drwy ysgrifennu adroddiadau ar gyfer eu Pennaeth. Gan gyfuno delweddau, darluniau a thestun, dewisodd y disgyblion eirfa briodol a gweithredu nodweddion a phatrwm ysgrifennu i strwythuro eu hymchwil a'u syniadau yn glir. Disgrifiodd Carol hyn fel gwaith oedd yn "rhoi cyfle ysgrifennu gwyh i'n dysgwyr, a chaniatáu i athrawon a disgyblion fod yn greadigol gyda'u syniadau."



## Teithio Egnïol a Hawliau Plant

Mae dewisiadau teithio yn effeithio ar sut mae pobl ifanc yn profi eu hawliau, fel ag y nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC). Mae cymuned sy'n cefnogi pobl ifanc i gerdded a beicio yn cefnogi buddiannau gorau'r plentyn (Erthygl 3 UNCRC): nid yn unig y mae teithio egnïol yn galluogi pobl i gyrraedd yr ysgol yn llawn bywyd ac yn barod i ddysgu; mae o fudd i ddatblygiad iach (Erthygl 6 UNCRC) ac yn hyrwyddo'r hawl i chwarae a hamdden (Erthygl 31 UNCRC).

Gyda chwarter cartrefi Cymru heb fynediad at gar, mae cefnogi cerdded a beicio yn ateb y gall pob plentyn yng Nghymru elwa ohono. Mae rhoi'r gallu i deuluoedd a phlant gael fynediad at eu hardal leol, waeth beth fo'u cefndir ariannol, yn rhan bwysig o waith Sustrans yng Nghymru.



## Beth ddywedodd athrawon eraill yng Nghymru am adnodd CA2 Sustrans:

*"Adnodd defnyddiol iawn i danio dychymyg y disgyblion."*

*"Sefyllfaoedd bywyd go iawn, diddorol a llawn hwyl."*

*"Mae'n wych cael adnodd sy'n ei gwneud hi'n hawdd i ni gysylltu iechyd, ffirwydd a lles i amcanion y FfLIRh."*

*"Roedd cysylltiadau gwych i'r FfLIRh yn sicrhau bod athrawon yn teimlo eu bod yn cwmpasu'r sgiliau wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau amgen."*

*"Roedd yr adnodd yn ei gwneud hi'n hawdd i'w ddefnyddio'n ôl y galw a'i gysylltu â meysydd eraill o'r cwricwlwm."*

*"Ffordd wych o ddefnyddio gweithgareddau rhifedd/ llythrennedd i drafod effaith amgylcheddol. Mae'n cynnwys y disgyblion ac yn dangos sut y maent hwy'n effeithio ar y byd o'u cwmpas."*

*"Roedd yr adnoddau yn glir iawn i'w dilyn ac yn ddiddorol dros ben gan wneud dysgu yn rhywbeth 'real' ar gyfer y plant."*

*"Cysylltodd yn hwylus iawn gydag amcanion Ysgolion-eco ac Ysgolion Iach."*



**Gwerthusodd 149 o ysgolion yng Nghymru adnodd CA2 Sustrans. Dywedodd 91% ohonynt fod y gweithgareddau wedi newid agweddau disgyblion tuag at deithio.**



## Hefyd ar gael

Mae adnodd FfLIRh ar gyfer CA3 **AM DDIM** Sustrans yn defnyddio ffilmiau, delweddau, testunau byr a gweithgareddau rhyngweithiol i ddatblygu'r holl ganlyniadau llafaredd ar gyfer Blwyddyn 8 trwy brosiect trawsgwricwlaidd am y daith i'r ysgol. Mae'r holl adnoddau ar gyfer yr ystafell ddosbarth wedi eu cynnwys.

Archebwch gopiau **AM DDIM** o'n hadnoddau FfLIRh ar gyfer CA2 a CA3 yn: [www.sustrans.org.uk/cymru/cwricwlwm](http://www.sustrans.org.uk/cymru/cwricwlwm)

## Sustrans Cymru


Sustrans yw'r elusen sy'n galluogi pobl i deithio ar droed, beic neu drafnidiaeth gyhoeddus am fwy o'r teithiau a wnawn bob dydd. Mae ein gwaith yn ei gwneud hi'n bosibl i bobl ddewis teithiau iachach, glanach a rhatach, gyda gwell lleoedd a gofodau i deithio drwyddynt a byw ynddynt.

Mae ein hadnoddau cysylltiedig â'r cwricwlwm wedi eu cynllunio gan athrawon er mwyn galluogi pobl ifanc i ffurfio barn ystyrlon a gwneud dewisiadau cytbwys am y modd y maent yn teithio. Gallwch ddysgu mwy am ein gwaith gydag ysgolion a phobl ifanc yng Nghymru yn [www.sustrans.org.uk/cymru/cwricwlwm](http://www.sustrans.org.uk/cymru/cwricwlwm)

**Cysylltwch â ni:** Sustrans Cymru, 123, Stryd Bute, Caerdydd CF10 5AE

**Ffôn:** 029 2065 0602

**E-bost:** [schoolswales@sustrans.org.uk](mailto:schoolswales@sustrans.org.uk)



Y MUNWCH Â'R MUDIAD

**sustrans**  
JOIN THE MOVEMENT